MARWOLAETHAU SY'N GYSYLLTIEDIG Â GWAITH

Protocol ar gyfer cydgysylltu

HSE

CPS
CROWN PROSECUTION SERVICE

Local Government Association

RHAGAIR

Cyflwynwyd y fersiwn cyntaf o'r protocol hwn ym 1998, ac fe'i llofnodwyd gan yr heddlu, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a Gwasanaeth Erlyn y Goron. Dyma'r ail fersiwn, a ddiwygiwyd er mwyn ehangu ein partneriaeth i gynnwys awdurdodau lleol drwy eu corff cynrychioliadol, y Gymdeithas Llywodraeth Leol, a Heddlu Trafnidiaeth Prydain, ac er mwyn pwysleisio pa mor bwysig yw cydweithio i ymchwilio'n drylwyr i'r sawl sy'n gyfrifol am farwolaethau sy'n gysylltiedig â gwaith yng Nghymru a Lloegr, a'u herlyn yn briodol.

Roeddem yn falch o lefel yr ymateb i'r ymarferion ymgynghori cyhoeddus, a gynhyrchodd rai awgrymiadau rhagorol a hynod ddefnyddiol. Rydym yn hynod ymwybodol o gryfder teimladau'r cyhoedd ynghylch marwolaethau yn y gweithle, a'r modd y mae'r digwyddiadau trasig hyn yn dinistrio bywydau pobl.

Mae'r pum sefydliad a lofnododd y protocol yn cydnabod bod angen i awdurdodau sy'n ymchwilio siarad â'i gilydd a rhannu gwybodaeth ac arfer gorau. Rydym yn gwerthfawrogi bod pobl am fod yn ffyddiog ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i gydlynu ein hymdrechion a chydweithredu â'n gilydd er budd gorau diogelwch y cyhoedd a'r rhai yr effeithir arnynt gan farwolaethau sy'n gysylltiedig â gwaith.

Rydym yn croesawu'r protocol diwygiedig hwn. Credwn ei fod yn darparu fframwaith ehangach ar gyfer cydgysylltu, ac y bydd ei gyflwyno yn helpu i sicrhau bod y pum sefydliad a lofnododd y protocol yn gweithio mewn partneriaeth i gyflwyno'r safon uchel o broffesiynoldeb y mae'r cyhoedd am ei gweld ac yn ei haeddu.

T J Stoddart,
Prif Gwnstabl Cynorthwyol,
Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu

Ian Johnston,
Prif Gwnstabl,
Heddlu Trafnidiaeth Prydain

Syr David Calvert-Smith,
Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus,
Gwasanaeth Erlyn y Goron

Timothy Walker,
Cyfarwyddwr Cyffredinol,
Awdurdod Gweithredol Iechyd
a Diogelwch

Syr Brian Briscoe,
Prif Weithredwr,
Cymdeithas Llywodraeth Leol

CYFLWYNIAD

Cytunwyd ar y protocol hwn rhwng yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE), Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (ACPO), Heddlu Trafnidiaeth Prydain (BTP), Cymdeithas Llywodraeth Leol a Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS). Mae'n nodi'r egwyddorion ar gyfer cydgysylltu effeithiol rhwng y partïon mewn perthynas â marwolaethau sy'n gysylltiedig â gwaith yng Nghymru a Lloegr, ac mae ar gael i'r cyhoedd. Yn arbennig, mae'n ymdrin â digwyddiadau lle mae'r dystiolaeth, yn dilyn marwolaeth, yn awgrymu y gallai trosedd ddifrifol ar wahân i drosedd iechyd a diogelwch, fod wedi ei chyflawni. Mae'r protocol yn ymdrin â materion sy'n ymwneud â chydgysylltu cyffredinol ac nis bwriadwyd i gwmpasu arferion gweithredol y sefydliadau a lofnododd y protocol.

Mae gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, awdurdodau lleol, yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron rolau a chyfrifoldebau gwahanol mewn perthynas â marwolaeth sy'n gysylltiedig â gwaith.

Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ac awdurdodau lleol yn gyfrifol, o dan adran 18 Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974 (Deddf HSW), am wneud trefniadau digonol ar gyfer gorfodi deddfwriaeth iechyd a diogelwch gyda'r bwriad o ddiogelu iechyd, diogelwch a lles gweithwyr a diogelu eraill, y cyhoedd yn bennaf. Mae gan bob un feysydd cyfrifoldeb penodol, a nodir manylion pellach amdanynt yn Atodiad A o'r protocol hwn.

Nodwch nad yw'r protocol hwn yn ystyried y broses o gydweithio a chydgysylltu â'r Gangen Ymchwilio i Ddamweiniau ar y Rheilffordd (RAIB), nad oedd wedi dod i fodolaeth ar adeg ysgrifennu'r protocol hwn. Pan gyflwynir yr RAIB, rhagwelir y bydd protocol, neu brotocolau, ar wahân sy'n rheoli'r broses o gydgysylltu rhwng yr RAIB a'r sefydliadau a lofnododd y protocol yn cael ei ddatblygu.

Ceir awdurdodau gorfodi eraill sydd â chyfrifoldeb dros orfodi deddfwriaeth iechyd a diogelwch, neu ddeddfwriaeth debyg arall. Rhestrir rhai o'r rhain yn Atodiad A. Nid yw'r Awdurdod Awyrennau Sifil a'r Asiantaeth Forol a Gwylwyr y Glannau wedi llofnodi'r protocol hwn, ond cytunodd y ddau i ufuddhau i egwyddorion y protocol.

Ar hyn o bryd, dim ond yr heddlu all ymchwilio i droseddau difrifol (ar wahân i droseddau iechyd a diogelwch) megis dynladdiad, a dim ond Gwasanaeth Erlyn y Goron all benderfynu p'un a ddylid mynd ag achos o'r fath yn ei flaen ai peidio. Bydd gan yr heddlu ddiddordeb hefyd mewn cadarnhau amgylchiadau marwolaeth sy'n gysylltiedig â gwaith er mwyn cynorthwyo cwest crwner.

Erlynir troseddau iechyd a diogelwch fel arfer gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, yr awdurdod lleol neu awdurdod gorfodi arall yn unol â'r polisi gorfodi cyfredol. Gall Gwasanaeth Erlyn y Goron hefyd erlyn troseddau iechyd a diogelwch, ond mae'n gwneud hyn fel arfer wrth erlyn troseddau difrifol eraill, megis dynladdiad, sy'n deillio o'r un amgylchiadau.

Wrth benderfynu a ddylid erlyn ai peidio, bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, yr awdurdod lleol neu awdurdod gorfodi arall yn adolygu'r dystiolaeth yn ôl y Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron er mwyn penderfynu a oes

cyfle realistig o gael euogfarn, ac os felly, p'un a oes angen erlyniad er budd y cyhoedd. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol a lofnododd y Concordat Gorfodi ddilyn yr egwyddorion a'r gweithdrefnau sydd ynddo.

Mae egwyddorion sylfaenol y protocol hwn fel a ganlyn:

- gwneir penderfyniad priodol ynghylch erlyn yn seiliedig ar ymchwiliad cadarn i amgylchiadau marwolaethau sy'n gysylltiedig â gwaith;

- bydd yr heddlu yn cynnal ymchwiliad pan fo arwydd bod trosedd ddifrifol (ar wahân i drosedd iechyd a diogelwch) wedi'i chyflawni, a bydd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, yr awdurdod lleol neu awdurdod gorfodi arall yn ymchwilio i droseddau iechyd a diogelwch. Bydd ymchwiliad ar y cyd fel arfer, ond ar yr achlysuron prin pan na fyddai hyn yn briodol, bydd cydgysylltu a chydweithredu o hyd rhwng y partïon sy'n ymchwilio;

- bydd y penderfyniad i erlyn yn cael ei gydlynu, ac yn cael ei wneud heb oedi diangen;

- bydd y galarwyr a'r tystion yn cael eu hysbysu am y sefyllfa yn briodol;

- bydd y partïon a lofnododd y protocol yn cynnal systemau effeithiol ar gyfer cydgysylltu.

O DAN BA AMGYLCHIADAU Y BYDD Y PROTOCOL HWN YN BERTHNASOL?

At ddibenion y protocol hwn, marwolaeth sy'n gysylltiedig â gwaith yw marwolaeth o ganlyniad i ddigwyddiad sy'n deillio o waith, neu sy'n gysylltiedig â gwaith. Mae'r egwyddorion a nodwyd yn y protocol hwn hefyd yn berthnasol i achosion pan fo'r dioddefwr yn dioddef anafiadau sydd mor ddifrifol fel bod arwydd clir, yn ôl barn feddygol, bod marwolaeth yn debygolrwydd cryf.

Bydd achosion pan fydd yn anodd penderfynu p'un a yw marwolaeth yn gysylltiedig â gwaith o fewn cymhwysiad y protocol hwn; er enghraifft, y marwolaethau hynny sy'n deillio o rai digwyddiadau traffig ffordd, neu mewn carchardai neu sefydliadau gofal iechyd, neu yn dilyn achos o nwy yn gollwng. Rhaid ystyried pob marwolaeth yn unigol, ar sail ei ffeithiau arbennig, yn ôl arweiniad mewnol sefydliadol, a gwneud penderfyniad ar p'un a ddylid ei hystyried fel marwolaeth sy'n gysylltiedig â gwaith. Wrth wneud penderfyniad ar y cwestiwn, bydd yr awdurdodau gorfodi yn cynnal trafodaethau ac yn cytuno ar benderfyniad yn ddi-oed.

1 DATGANIAD O FWRIAD

1.1 Yn ystod camau cynnar ymchwiliad, nid yw'n amlwg bob amser os bydd trosedd ddifrifol wedi ei chyflawni. Mae'r partïon i'r protocol yn ymrwymedig i sicrhau bod unrhyw ymchwiliad i farwolaeth sy'n gysylltiedig â gwaith yn drylwyr a phriodol, a byddant yn cytuno i gydweithio'n agos er mwyn cyflawni hyn. Dylai penderfyniadau sy'n ymwneud â phwy ddylai arwain yr ymchwiliad, a pha gyfeiriad y bydd yn ei ddilyn, fod yn amserol, ac wedi eu seilio ar y dystiolaeth orau sydd ar gael ac arbenigedd technegol, a dylent ystyried y budd ehangach i'r cyhoedd. Pe bai unrhyw amheuaeth o ran pwy ddylai fod yn rhan o ymchwilio i unrhyw farwolaeth sy'n gysylltiedig â gwaith, yna bydd y partïon yn cydweithio er mwyn dod i gasgliad.

2 CAMAU CYCHWYNNOL

2.1 Dylai swyddog yr heddlu sy'n mynychu digwyddiad sy'n ymwneud â marwolaeth sy'n gysylltiedig â gwaith drefnu, yn ôl gweithdrefnau heddlu'r swyddog ei hun sy'n rheoli marwolaethau anesboniadwy, i:

- nodi, diogelu, cadw a chymryd rheolaeth o'r sefyllfa, ac unrhyw le perthnasol arall;
- goruchwylio a chofnodi pob gweithgarwch;
- hysbysu uwch swyddog goruchwylio;
- holi p'un a yw'r cyflogwr neu berson cyfrifol arall sy'n rheoli'r eiddo neu'r gweithgarwch wedi hysbysu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, yr awdurdod lleol neu awdurdod ymchwilio neu awdurdod gorfodi arall ai peidio; a
- cysylltu â'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, yr awdurdod lleol neu awdurdod gorfodi arall a thrafod y digwyddiad gyda hwy, a chytuno ar drefniadau ar gyfer rheoli'r sefyllfa, ystyried mynediad i eraill, a gweithdrefnau trin lleol eraill er mwyn sicrhau diogelwch y cyhoedd.

2.2 Dylai swyddog yr heddlu sydd â statws goruchwylio fynychu lleoliad y digwyddiad ac unrhyw le perthnasol arall er mwyn asesu'r sefyllfa, adolygu camau gweithredu a gymerwyd hyd yma a chymryd cyfrifoldeb dros yr ymchwiliad. Pe bai staff unrhyw awdurdod ymchwilio neu awdurdod gorfodi arall yn bresennol cyn i'r heddlu gyrraedd, dylent sicrhau bod yr heddlu wedi cael eu galw, a chadw lleoliad y digwyddiad yn unol â'r camau cychwynnol (uchod) hyd nes y bydd yr heddlu'n cyrraedd.

3 RHEOLI'R YMCHWILIAD

3.1 Dylid rheoli ymchwiliadau yn broffesiynol bob amser, gyda chyfathrebu rhwng y sefydliadau a lofnododd y protocol yn cael ei gynnal bob amser. Dylid cynnal ymchwiliadau ar y cyd yn gyffredinol, gydag un o'r partïon yn arwain, neu'n ymgymryd â'r brif rôl, fel y bo'n briodol. Efallai y bydd ymchwiliad hefyd yn gofyn am gydgysylltu gydag unrhyw awdurdod gorfodi arall a allai fod â diddordeb, a gallai gynnwys cydgysylltu â Gwasanaeth Erlyn y Goron.

3.2 Drwy gydol cyfnod yr ymchwiliad, bydd yr heddlu a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, yr awdurdod lleol neu unrhyw awdurdod gorfodi arall yn adolygu cynnydd yr ymchwiliad. Dylid cytuno ar gerrig milltir a'u monitro, a dylid cofnodi penderfyniadau polisi a phenderfyniadau allweddol.

3.3 Dylai'r heddlu, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, yr awdurdod lleol neu awdurdod gorfodi arall gytuno ar:

- sut y dylid defnyddio adnoddau yn benodol;
- sut y dylid datgelu tystiolaeth rhwng partïon;
- sut y dylid cydlynu'r gwaith o gyfweld â thystion, rhoi cyfarwyddyd i arbenigwyr ac archwilio'r arddangosion yn fforensig;
- sut, ac i ba raddau, y dylid ymchwilio i fethiannau corfforaethol neu sefydliadol;
- strategaeth ar gyfer hysbysu'r galarwyr, tystion, a phartïon eraill sydd â diddordeb, megis y crwner, am ddatblygiadau yr ymchwiliad; a
- strategaeth cyfryngau er mwyn ystyried teimladau'r galarwyr a'r rhai sy'n rhan o'r digwyddiad, ac er mwyn annog cysondeb yn yr ymagwedd tuag at gyflwyno adroddiadau.

3.4 Mewn rhai ymchwiliadau ar raddfa fawr gallai fod o fantais i lunio grŵp cydgysylltu strategol er mwyn sicrhau cyfathrebu rhyng-sefydliadol effeithiol, ac er mwyn rhannu gwybodaeth a phrofiadau perthnasol.

4 GWNEUD PENDERFYNIADAU

4.1 Pan fydd amheuaeth yn codi o'r ymchwiliad y gallai trosedd ddifrifol (ar wahân i drosedd iechyd a diogelwch) fod wedi achosi'r farwolaeth, yr heddlu fydd yn cymryd y prif gyfrifoldeb dros yr ymchwiliad gan weithio mewn partneriaeth â'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, yr awdurdod lleol neu awdurdod gorfodi arall.

4.2 Pan ddaw yn amlwg yn ystod yr ymchwiliad nad oes digon o dystiolaeth fod trosedd ddifrifol (ar wahân i drosedd iechyd a diogelwch) wedi achosi'r farwolaeth, dylai'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, yr awdurdod lleol neu awdurdod gorfodi arall, drwy gytundeb, gymryd cyfrifoldeb dros yr ymchwiliad. Dylai'r ddwy ochr gofnodi penderfyniad o'r fath yn ysgrifenedig.

4.3 Pan fo'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, yr awdurdod lleol neu awdurdod gorfodi arall yn ymchwilio i'r farwolaeth, ac y darganfyddir gwybodaeth newydd a allai fod o gymorth i'r heddlu wrth iddynt ystyried p'un a gyflawnwyd trosedd ddifrifol (ar wahân i drosedd iechyd a diogelwch) ai peidio, yna bydd yr awdurdod gorfodi yn trosglwyddo'r wybodaeth newydd honno i'r heddlu. Gallai arolygydd awdurdod gorfodi wneud hyn, ond gallai cyfreithwyr yr awdurdod gorfodi wneud hyn hefyd drwy gyfrwng Gwasanaeth Erlyn y Goron. Dylai'r heddlu ystyried wedyn p'un a ddylent barhau i fod yn bennaf gyfrifol am yr ymchwiliad. Dylid cofnodi'r penderfyniad a'r rhesymau drosto yn ysgrifenedig.

4.4 Bydd achosion prin lle bydd angen rhoi ystyriaeth bellach i'r dystiolaeth a'r ffeithiau sy'n ymwneud â'r achos, o ganlyniad i gwest crwner, adolygiad barnwrol neu gamau cyfreithiol eraill. Pan fo hyn yn digwydd bydd yr heddlu, yr awdurdod gorfodi sy'n bennaf gyfrifol am yr ymchwiliad a Gwasanaeth Erlyn y Goron yn gweithio mewn partneriaeth er mwyn sicrhau y gwneir penderfyniad buan. Gallai fod angen ymchwiliad pellach hefyd.

5 DATGELU DEUNYDD

5.1 Mae'n rhaid i'r broses ddatgelu ddilyn y gyfraith a'r weithdrefn sefydledig bob amser.

5.2 Mewn achos pan fu ymchwiliad, dylai unrhyw ddeunydd a gesglir gael ei rannu, yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau cyfreithiol, rhwng yr heddlu, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, yr awdurdod lleol neu awdurdod gorfodi arall a Gwasanaeth Erlyn y Goron. Efallai y bydd angen gweithdrefnau trin arbennig mewn rhai achosion. Dylid cytuno hefyd ar y sefydliad sy'n gyfrifol am gadw'r arddangosion, dogfennau a deunydd perthnasol arall.

6 YMCHWILIADAU ARBENNIG

6.1 Yn achos rhai digwyddiadau, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â marwolaethau lluosog, gall y Comisiwn Iechyd a Diogelwch, gyda chaniatâd yr Ysgrifennydd Gwladol, gyfarwyddo y dylid cynnal ymchwiliad cyhoeddus. Fel arall, gall y Comisiwn awdurdodi'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, neu unrhyw berson arall, i ymchwilio a chynhyrchu adroddiad arbennig.

6.2 Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd yr heddlu yn darparu unrhyw gymorth a thystiolaeth angenrheidiol i'r sawl a benodir i gynnal yr ymchwiliad cyhoeddus, neu i gynnal yr ymchwiliad arbennig, yn amodol ar y rheoliadau perthnasol.

6.3 Gall materion cyfreithiol cymhleth godi pan fo ymchwiliadau cyhoeddus ac ymchwiliadau troseddol neu erlyniadau yn digwydd ochr yn ochr. Bydd y sefydliadau a lofnododd y protocol yn ceisio hysbysu cadeiryddion yr ymchwiliad cyhoeddus am gynnydd ymchwiliadau eraill.

6.4 Weithiau bydd yn rhaid oedi cyn cyhoeddi adroddiad ymchwiliad cyhoeddus er mwyn aros am ganlyniad achos troseddol, ac ar achlysuron eraill, efallai na fydd oedi o'r fath oherwydd bod budd mawr i'r cyhoedd o gyhoeddi'r adroddiad ac argymhellion yr ymchwiliad cyhoeddus yn gyflym. Y naill ffordd neu'r llall, bydd llofnodwyr y protocol yn cydweithio er mwyn sicrhau y caiff y penderfyniad i erlyn ei wneud mor gyflym â phosibl a bod unrhyw achos troseddol yn cychwyn yn ddi-oed.

7 CYNGOR CYN CYHUDDO

7.1 Dylid annog cydgysylltu cynnar gan yr heddlu, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, yr awdurdod lleol neu awdurdod gorfodi arall gyda Gwasanaeth Erlyn y Goron, er budd gorau'r ymchwiliad a'r broses erlyn yn gyffredinol. Nid oes angen aros hyd nes y bydd ffeil yn barod i gael ei chyflwyno cyn y bydd yr heddlu yn agor trafodaethau â Gwasanaeth Erlyn y Goron. Anogir yr heddlu, ar unrhyw adeg yn dilyn marwolaeth sy'n gysylltiedig â gwaith, i ymgynghori â Gwasanaeth Erlyn y Goron i gael cyngor, nid yn unig am natur unrhyw gyhuddiadau, ond hefyd o ran materion cyfreithiol a thystiolaethol sy'n ymwneud â'r ymchwiliad, gan gynnwys cyngor ynghylch tystiolaeth arbenigol.

7.2 Dylai'r heddlu geisio cyngor Gwasanaeth Erlyn y Goron cyn cyhuddo unrhyw unigolyn o drosedd ddifrifol (ar wahân i drosedd iechyd a diogelwch) sy'n deillio o farwolaeth sy'n gysylltiedig â gwaith.

7.3 Dylai'r heddlu ymgynghori â Chyfarwyddiaeth Gwaith Achos Gwasanaeth Erlyn y Goron am gyngor pan fo angen ystyried cyhuddo cwmni neu gorfforaeth o drosedd ddifrifol (ar wahân i drosedd iechyd a diogelwch).

8 Y PENDERFYNIAD I ERLYN

8.1 Gwneir y penderfyniad i erlyn unrhyw drosedd ddifrifol (ar wahân i drosedd iechyd a diogelwch) sy'n deillio o farwolaeth sy'n gysylltiedig â gwaith gan Wasanaeth Erlyn y Goron yn unol â'r *Cod ar gyfer erlynwyr y goron*. Gellir erlyn trosedd o'r fath gyda throseddau iechyd a diogelwch cysylltiedig neu hebddynt. Gwneir y penderfyniad yn dilyn trafodaeth gyda'r heddlu, a, lle y bo'n briodol, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, yr awdurdod lleol neu awdurdod gorfodi arall.

8.2 Ni ddylai bod oedi diangen cyn y gwneir y penderfyniad i erlyn. Os bydd oedi, yna bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn hysbysu'r heddlu a'r awdurdod gorfodi ac yn egluro'r rhesymau dros yr oedi, ac yn parhau i'w hysbysu am gynnydd y broses gwneud penderfyniad.

8.3 Dylai Gwasanaeth Erlyn y Goron roi ystyriaeth bob amser i'r goblygiadau i'r galarwyr yn sgil y penderfyniad i erlyn ai peidio, ac i unrhyw farn a fynegwyd ganddynt.

8.4 Pan fydd Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi gwneud ei benderfyniad, rhaid iddo roi gwybod amdano i'r heddlu, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, yr awdurdod lleol neu awdurdod gorfodi arall cyn gynted ag y bo'n ymarferol, fel bod yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, yr awdurdod lleol neu awdurdod gorfodi arall yn gallu penderfynu cyn

gynted â phosibl p'un a ddylid erlyn am droseddau iechyd a diogelwch ai peidio os na fydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn gwneud hynny.

8.5 Pan fo'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, yr awdurdod lleol neu awdurdod gorfodi arall yn bennaf gyfrifol am yr ymchwiliad, yna caiff y penderfyniad ynghylch p'un a ddylid erlyn am droseddau iechyd a diogelwch ai peidio ei wneud heb oedi diangen. Yna dylai'r awdurdod gorfodi perthnasol hysbysu'r heddlu o'i benderfyniad.

8.6 Ni chaiff penderfyniad i erlyn ei gyhoeddi hyd nes y caiff y galarwyr, Swyddfa'r Crwner ac unrhyw ddiffynyddion posibl eu hysbysu yn ôl y strategaeth y cytunwyd arni'n flaenorol.

8.7 Cyhoeddir y penderfyniad yn ôl y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y cyfryngau.

8.8 Pan na fydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn erlyn, bydd cyhoeddiad o benderfyniad Gwasanaeth Erlyn y Goron yn cynnwys y ffaith y bydd penderfyniad yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, yr awdurdod lleol neu awdurdod gorfodi arall yn cael ei wneud ar ôl y cwest (yn amodol ar baragraff 10.3, isod). Mae'n bolisi gan Wasanaeth Erlyn y Goron i nodi ei resymau yn ysgrifenedig a'u hanfon at y galarwyr, ac i gynnig cyfarfod â hwy er mwyn trafod y rhesymau dros y penderfyniad.

9 YR ERLYNIAD

9.1 Pan fo Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, yr awdurdod lleol neu awdurdod gorfodi arall yn ceisio erlyn troseddau sy'n deillio o'r un digwyddiad, bydd yr erlyniad(au) yn cael eu cychwyn a'u rheoli ar y cyd.

9.2 Dylid cynnal cynhadledd gynnar a fynychir gan Wasanaeth Erlyn y Goron, yr heddlu a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, yr awdurdod lleol neu awdurdod gorfodi arall er mwyn ystyried y broses o reoli'r achos. Yn arbennig, dylid trafod, cytuno a chofnodi'r materion canlynol:

- pwy fydd yn bennaf gyfrifol am arwain yr erlyniad;
- natur a geiriad y cyhuddiadau (gan gynnwys, lle y bo'n briodol, ystyriaeth o unrhyw gyhuddiadau amgen a phledion derbyniol);
- trefniadau ar gyfer cadw a datgelu deunydd;
- amserlen ar gyfer rheoli'r achos;
- trefniadau ar gyfer hysbysu'r galarwyr a thystion;
- cyhoeddi'r penderfyniad;
- trefniadau ar gyfer cadw mewn cysylltiad yn ystod yr erlyniad, a chytundeb o ran pa system y dylid ei defnyddio ar gyfer ymgynghori, pe bai mater yn codi sy'n arwain at atal y camau neu mewn achos pan na chynigir tystiolaeth;
- cytundeb o ran unrhyw gyfarwyddiadau penodol a roddir i'r erlynydd; ac
- unrhyw faterion eraill sy'n ymwneud â rheoli'r achos.

9.3 Pan fo Gwasanaeth Erlyn y Goron yn erlyn, a phan nad yw'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, yr awdurdod lleol nac awdurdod gorfodi arall yn erlyn, ond pan fo awdurdod gorfodi yn dymuno cadw buddiant yn yr achos, bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn parhau i hysbysu'r awdurdod gorfodi hwnnw o gynnydd a chanlyniad yr achos.

10 CRWNER EI MAWRHYDI

10.1 Bydd yr heddlu neu Gwasanaeth Erlyn y Goron yn hysbysu'r crwner pan ddygir cyhuddiad o drosedd ddifrifol sy'n deillio o farwolaeth sy'n gysylltiedig â gwaith (ar wahân i drosedd iechyd a diogelwch). Gall y crwner wedyn ohirio'r cwest tan ddiwedd yr erlyniad troseddol. Gall y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus hefyd ofyn i'r crwner ohirio'r cwest pan fo achos penodol gerbron llys ynadon sy'n gysylltiedig â marwolaeth.

10.2 Pan fo Gwasanaeth Erlyn y Goron yn erlyn, a phan fo'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, yr awdurdod lleol neu awdurdod gorfodi arall wedi cyflwyno dogfennau neu adroddiad i'r crwner ynghylch marwolaeth sy'n gysylltiedig â gwaith, dylid rhoi copi hefyd i Wasanaeth Erlyn y Goron a'r heddlu. Yn yr un modd, pan fo awdurdod gorfodi yn erlyn, a phan fo'r heddlu neu Wasanaeth Erlyn y Goron wedi cyflwyno dogfennau neu adroddiad i'r crwner ynghylch marwolaeth sy'n gysylltiedig â gwaith, dylid rhoi copi hefyd i'r awdurdod gorfodi. Ym mhob achos, ni ddylid datgelu dogfennau nac adroddiadau i unrhyw barti heb ganiatâd y parti a gyflwynodd hwy'n wreiddiol.

10.3 Pan fo Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi adolygu'r achos ac wedi penderfynu peidio ag erlyn, bydd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, yr awdurdod lleol neu awdurdod gorfodi arall yn aros am ganlyniad cwest y crwner cyn dwyn cyhuddiad o unrhyw droseddau iechyd a diogelwch, oni bai y byddai aros yn gwneud niwed i'r achos. Lle bynnag y bydd angen i Wasanaeth Erlyn y Goron adolygu neu ailadolygu'r achos, yn dilyn cwest, ymchwiliad cyhoeddus, adolygiad barnwrol neu gamau cyfreithiol eraill, bydd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, yr awdurdod lleol neu awdurdod gorfodi arall yn aros hyd nes bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi cwblhau yr adolygiad cyn cychwyn neu barhau â'u hachos eu hunain.

11 CYDGYSYLLTU CENEDLAETHOL

11.1 Mae'r Pwyllgor Cydgysylltu Cenedlaethol yn cynnwys cynrychiolwyr o'r heddlu, Heddlu Trafnidiaeth Prydain, Gwasanaeth Erlyn y Goron, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a'r Gymdeithas Llywodraeth Leol. Bydd yn cyfarfod o leiaf ddwywaith y flwyddyn er mwyn adolygu gweithrediad y protocol ac ystyried yr angen am newidiadau i'r trefniadau.

12 CYDGYSYLLTU LLEOL

12.1 Bydd y Pwyllgorau Cydgysylltu Rhanbarthol yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sefydliadau a lofnododd y protocol, a enwebir yn lleol. Bydd y pwyllgorau hyn yn cyfarfod yn rheolaidd er mwyn trafod materion sydd o ddiddordeb a phryder cyffredin, ac, yn arbennig, weithrediad y protocol o safbwynt lleol, er mwyn monitro effeithiolrwydd y protocol, a chyfathrebu unrhyw faterion i'r Pwyllgor Cydgysylltu Cenedlaethol.

12.2 Bydd y Pwyllgorau Cydgysylltu Rhanbarthol yn gyfrifol am sicrhau bod llinell gyfathrebu leol benodedig ac effeithiol rhwng y pum sefydliad.

ATODIAD A: ARWEINIAD CYFFREDINOL I ORFODI DEDDF IECHYD A DIOGELWCH YN Y GWAITH AC ATI 1974 (DEDDF HSW) A DEDDFWRIAETH GYSYLLTIEDIG

Yn gyffredinol, caiff y gwaith o orfodi Deddf HSW a'r ddeddfwriaeth gysylltiedig ei rannu rhwng yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ac awdurdodau lleol. Rhoddir arweiniad cyffredinol i'r modd y rhennir y prif weithgarwch isod. Am arweiniad mwy manwl ar ddyrannu gweithgareddau neu safleoedd penodol cyfeiriwch at wefan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, sef: www.hse.gov.uk/lau/lacs/23-15.htm

Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch

Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn gyfrifol am orfodi deddfwriaeth iechyd a diogelwch sy'n gysylltiedig â gwaith mewn:

- ffatrïoedd a safleoedd gweithgynhyrchu eraill, gan gynnwys safleoedd trwsio cerbydau modur
- gweithfeydd a phurfeydd cemegol
- adeiladu
- systemau rheilffordd, tramiau a threnau tanddaearol
- pyllau, chwareli a safleoedd tirlenwi
- ffermydd, amaethyddiaeth a choedwigaeth
- ysbytai, gan gynnwys cartrefi nyrsio
- llywodraeth leol, gan gynnwys eu swyddfeydd a'r cyfleusterau a weithredir ganddynt
- ysgolion, colegau a phrifysgolion
- gosod, cynnal a chadw neu drwsio gosodiadau nwy yn y cartref
- cyfleustodau, yn cynnwys cynhyrchu pŵer, dŵr a gwastraff
- ffeiriau (teithiol neu sefydlog)
- meysydd awyr (ar wahân i adeiladau terminws, meysydd parcio ac adeiladau swyddfa)
- awdurdodau heddlu ac awdurdodau tân; cyrff y Goron, gan gynnwys y Weinyddiaeth Amddiffyn
- carchardai
- dociau
- gosodiadau niwclear

- gosodiadau nwy ac olew alltraeth a gweithgareddau cysylltiedig, gan gynnwys cychod gosod pibellau, a llongau cymorth deifio
- peryglon mawr ar y tir mawr, gan gynnwys llinellau pibell, trawsyrru a dosbarthu nwy
- cludo nwyddau peryglus ar y ffordd neu gyda rheilffordd
- gweithgynhyrchu, cludo, trin a diogelwch ffrwydron
- rhannau cyffredin o eiddo domestig.

Awdurdodau lleol

Yng Nghymru a Lloegr, mae awdurdodau lleol yn gorfodi'r Ddeddf HSW mewn perthynas â rhai safleoedd annomestig, gan gynnwys:

- siopau ac eiddo manwerthu, gan gynnwys stondinau marchnad, golchdai hunan-wasanaeth, a gwerthwyr symudol
- y rhan fwyaf o weithgareddau swyddfa
- rhai warysau cyfanwerthu a manwerthu
- gwestai, gwestai bach, hosteli, safleoedd carafannau a gwersylla, bwytai, tafarndai a safleoedd trwyddedig eraill
- hamdden ac adloniant, gan gynnwys clybiau nos, sinemâu, clybiau cymdeithasol, syrcasau, cyfleusterau chwaraeon, clybiau iechyd, campfeydd, ysgolion marchogaeth, caeau rasio, llogi cychod pleser, cylchfannau ceir rasio, amgueddfeydd, theatrau, orielau celf a chanolfannau arddangos
- addoldai a threfnwyr angladdau
- gofal anifeiliaid, gan gynnwys sŵau, marchdai a chytiau cŵn
- gwasanaethau therapiwtig a harddwch, gan gynnwys tylino, sawnau, heulfannau, tatwïo, tyllu'r croen a'r corff, a thrin gwallt
- cartrefi gofal preswyl
- gofal plant cyn ysgol a redir yn breifat, e.e. meithrinfeydd.

Ceir awdurdodau ac asiantaethau eraill sydd â chyfrifoldebau dros ymchwilio a gorfodi Deddf HSW a deddfwriaeth debyg arall. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft:

- yr Awdurdodau Tân
- yr Asiantaeth Forol a Gwylwyr y Glannau (ar fwrdd llongau)

- y Comisiwn Safonau Gofal (lleoliadau gofal iechyd)
- Asiantaeth yr Amgylchedd
- yr Awdurdod Awyrennau Sifil
- Safonau Masnach
- yr Adran Masnach a Diwydiant (DTI)
- y Gangen Ymchwilio i Ddamweiniau Morol.

Cysylltu â'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch y tu allan i oriau swyddfa

Nid gwasanaeth brys yw'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Mae wedi cynhyrchu arweiniad ar gyfer yr heddlu ac ystafelloedd rheoli gwasanaethau brys yn disgrifio sut i gysylltu ag arolygwyr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch y tu allan i oriau swyddfa.

Cysylltu ag awdurdodau lleol y tu allan i oriau swyddfa

Bydd trefniadau lleol ar waith ar gyfer cysylltu ag arolygwyr iechyd a diogelwch awdurdodedig o fewn awdurdodau lleol. Cysylltir â hwy fel arfer drwy neuadd y dref leol neu swyddfeydd y cyngor yn ystod oriau swyddfa ac ar rif brys y tu allan i oriau swyddfa.

RHAGOR O WYBODAETH

Mae cyhoeddiadau yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch y gellir eu prynu a chyhoeddiadau sydd am ddim ar gael o: HSE Books, PO Box 1999, Sudbury, Suffolk CO10 2WA Ffôn: 01787 881165 Ffacs: 01787 313995
Gwefan: www.hsebooks.co.uk (Mae cyhoeddiadau yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch y gellir eu prynu hefyd ar gael o siopau llyfrau a gellir llwytho taflenni am ddim i lawr o wefan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn www.hse.gov.uk)

Er mwyn cael gwybodaeth am iechyd a diogelwch ffoniwch Linell Wybodaeth yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch Ffôn: 08701 545500 Ffacs: 02920 859260 e-bost: hseinformationservices@natbrit.com neu ysgrifennwch at:
Gwasanaethau Gwybodaeth HSE, Parc Busnes Caerffili, Caerffili BF83 3GG.

Mae cyhoeddiadau Gwasanaeth Erlyn y Goron ar gael o CPS Communications Branch, 50 Ludgate Hill, London EC4M 7EX, Ffôn: 020 7796 8442, Gwefan: www.cps.gov.uk

Gwefan ACPO: www.acpo.police.uk

Gellir atgynhyrchu'r cyhoeddiad hwn am ddim, heblaw at ddibenion hysbysebu, ardystio neu ddibenion masnachol. Mae'r wybodaeth yn gyfredol ar 02/03. Dylech gydnabod mai'r ffynhonnell yw'r HSE.

Argraffwyd a chyhoeddwyd gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
MISC491 02/03 C140

CYDNABYDDIAETHAU

Mae'r Pwyllgor Cydgysylltu Cenedlaethol yn hynod ddiolchgar i'r bobl a'r sefydliadau hynny a ymatebodd i'r ymarferion ymgynghori cyhoeddus. Roedd eu cyfraniadau yn werthfawr iawn i'r broses adolygu, ac, o ganlyniad, mae nifer o'r syniadau a'r cynigion bellach wedi eu cynnwys yn y protocol hwn.

DARLLEN PELLACH

Gellir canfod rhagor o wybodaeth yn y cyhoeddiadau canlynol, sydd am ddim:

Advice and information for bereaved families (England and Wales) MISC446a 2002 (ar gael gan arolygwyr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, **nid** HSE Books)

Advice and information for bereaved families (Scotland) MISC200 2000 (ar gael gan arolygwyr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, **nid** HSE Books)

Datganiad polisi gorfodi HSC15 HSE Books 2002

Iechyd a diogelwch mewn sectorau a orfodir gan awdurdod lleol. Adran 18: Arweiniad y Comisiwn Iechyd a Diogelwch ar gyfer awdurdodau lleol MISC488 HSE Books 2002

Y cod ar gyfer erlynwyr y goron Crown Prosecution Service, Communications Branch, 50 Ludgate Hill, London EC4M 7EX, Ffôn: 020 7796 8442, Gwefan: www.cps.gov.uk

RHAGOR O WYBODAETH

Mae cyhoeddiadau yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch y gellir eu prynu a chyhoeddiadau sydd am ddim ar gael o: HSE Books, PO Box 1999, Sudbury, Suffolk CO10 2WA Ffôn: 01787 881165 Ffacs: 01787 313995
Gwefan: www.hsebooks.co.uk (Mae cyhoeddiadau yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch y gellir eu prynu hefyd ar gael o siopau llyfrau a gellir llwytho taflenni am ddim i lawr o wefan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn www.hse.gov.uk)

Er mwyn cael gwybodaeth am iechyd a diogelwch ffoniwch Linell Wybodaeth yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch Ffôn: 08701 545500 Ffacs: 02920 859260 e-bost: hseinformationservices@natbrit.com neu ysgrifennwch at:
Gwasanaethau Gwybodaeth HSE, Parc Busnes Caerffili, Caerffili BF83 3GG.

Mae cyhoeddiadau Gwasanaeth Erlyn y Goron ar gael o CPS Communications Branch, 50 Ludgate Hill, London EC4M 7EX, Ffôn: 020 7796 8442, Gwefan: www.cps.gov.uk

Gwefan ACPO: www.acpo.police.uk

Gellir atgynhyrchu'r cyhoeddiad hwn am ddim, heblaw at ddibenion hysbysebu, ardystio neu ddibenion masnachol. Mae'r wybodaeth yn gyfredol ar 02/03. Dylech gydnabod mai'r ffynhonnell yw'r HSE.

Argraffwyd a chyhoeddwyd gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
MISC491W 02/03 C20